Addysg Dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr

Arolwg o'r ddarpariaeth a wneir gan ysgolion ac awdurdodau lleol i gwrdd ag anghenion dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr

Estyn

Rhagoriaeth i bawb.....Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cymerwyd pob gofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn,
Llys Angor,
Heol Keen,
Caerdydd,
CF24 5JW neu drwy e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i'r Gymraeg)

(h) **Hawlfraint y Goron 2005: Gellir ailddefnyddio'r ddogfen/cyhoeddiad am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hawlfraint fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

	Cynnwys	Tudalen

1	**Cyflwyniad**	**1**
2	Cefndir	1
3	**Cyd-destun**	**3**
4	**Prif ganfyddiadau**	**4**
5	**Argymhellion**	**5**
6	Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	6
7	Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	8
8	Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	11
9	Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	14

1 Cyflwyniad

1 Mae'r ddogfen hon yn adrodd am y canfyddiadau o arolwg Estyn o'r ddarpariaeth a wneir gan ysgolion ac awdurdodau lleol i gwrdd ag anghenion dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr.

2 Mae'r adroddiad yn disgrifio agweddau ar arfer dda ledled Cymru hefyd.

3 Wrth lunio'r adroddiad hwn, ymwelodd AEM, ac ystyried tystiolaeth o 18 o ysgolion a 9 awdurdod addysg lleol (AALlau) gan gynnwys ymweliadau â safleoedd Sipsi Deithwyr. Mae'r ysgolion sampl a'r AALlau yr ymwelwyd â hwy yn adlewyrchu sampl gytbwys o:

- bob cwr o Gymru;
- ardaloedd gwledig a threfol; a
- chymunedau Sipsi Deithwyr o wahanol faint.

2 Cefndir

4 Cydnabuwyd Sipsiwn Romani yn y gyfraith fel grŵp hiliol ers 1988. Cafodd Sipsi Deithwyr Gwyddelig, sydd wedi bod yn teithio yn Lloegr fel grŵp cymdeithasol gwahanol ers y 1800au eu cydnabod yn gyfreithiol fel grŵp hiliol yng Nghymru a Lloegr yn 2000. Cynigir amddiffyniad i'r ddau grŵp gan Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygiad) 2000.

5 Caiff nifer o grwpiau eraill a gynhwysir yn y termau generig 'Sipsi a Sipsi Deithwyr' eu diffinio yn ôl eu tarddiadau ethnig, cenedlaethol neu gymdeithasol yn hytrach nag yn ôl eu tarddiadau hiliol. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys:

- Sipsiwn o Gymru a Lloegr;
- Sipsi Deithwyr o'r Alban;
- Pobl sioeau (Pobl ffair) a phobl syrcas;
- Cychwyr (preswylwyr cychod galwedigaethol); a
- Sipsi Deithwyr yr (oes) newydd.

6 Mae Adran 488 Deddf Addysg 1996 yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru drefnu bod grantiau penodol ar gael i AALlau yng Nghymru i ddarparu addysg ar gyfer plant Sipsi Deithwyr a phobl wedi'u dadleoli. Mae'r Grant ar gyfer Addysg Sipsi Deithwyr a Phobl wedi'u Dadleoli yn ariannu prosiectau addysg lleol sy'n ceisio gwella ac ehangu'r ddarpariaeth addysg ar gyfer plant o grwpiau a nodwyd uchod. Yn 2005-2006, trefnodd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) fod £900,000 ar gael o dan y grant hwn. Mae Rhaglen Equal* Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) wedi rhoi

* *Rhaglen gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yw Equal sy'n anelu at brofi ac annog ffyrdd newydd o hyrwyddo cyflogadwyedd, entrepreneuriaeth, hyblygrwydd a chyfleoedd cyfartal. Mae'r grant hwn ar gael am flwyddyn yn unig i ddechrau.*

arian cyfatebol ar gyfer y grant hwn yn ddiweddar, a thrwy hynny mae wedi dyblu'r cyfanswm sydd ar gael ar gyfer AALlau.

AALlau	Niferoedd Disgyblion	Grant Adran 488*
Wrecsam (gan gynnwys Sir Ddinbych a Chonwy)	85	£70,376
Abertawe	130	£87,997
Castell-nedd Port Talbot	147	£77,943
Caerdydd	474	£218,359
Sir Benfro	202	£166,857
Sir Gaerfyrddin	33	£51,890
Torfaen (gan gynnwys Blaenau Gwent)	121	£71,735
Merthyr Tudful	26	£18,465
Sir y Fflint	129	£90,745
Gwynedd	33	£16,449
Bro Morgannwg	7	£4,814
Ceredigion	7	£4,814
Pen-y-bont ar Ogwr	21	£19,555
Cyfansymiau	**1415**	**£900,000**

* Ffynhonnell Llywodraeth Cynulliad Cymru

3 Cyd-destun

7 Yn 2003, yn dilyn astudiaeth a barodd am flwyddyn, cyflwynodd Pwyllgor Cyfle Cyfartal (PCC) Llywodraeth Cynulliad Cymru yr adroddiad terfynol o'i adolygiad o ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer Sipsiwn a Sipsi Deithwyr. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion sy'n gysylltiedig ag addysg.

8 Mae argymhelliad 34 yn ymwneud yn benodol â gwaith Estyn. Awgryma:

"Y dylai Llywodraeth y Cynulliad roi'r mecanweithiau ar waith i fonitro pa mor effeithiol y mae AALlau yn cyflawni eu dyletswydd statudol i addysgu plant Sipsiwn a Sipsi Deithwyr, er enghraifft, trwy gynnwys ystyried effeithiolrwydd darpariaeth AALlau yng nghylch gorchwyl Estyn ar gyfer arolygiadau o ysgolion ac AALlau."

9 Dyma oedd ymateb y Cynulliad i argymhelliad 34:

"Bydd Estyn yn cael ei gomisiynu, fel rhan o'i gylch gorchwyl, i gynnal arolygiadau o sampl o AALlau sy'n darparu addysg i Sipsi Deithwyr er mwyn darganfod a ydynt yn cyflawni eu dyletswydd i addysgu dysgwyr sy'n Sipsiwn/Sipsi Deithwyr."

4 Prif ganfyddiadau

- Mae llawer o AALlau yn rhoi cefnogaeth i ysgolion trwy Wasanaeth Addysg i Deithwyr. Mae ansawdd y gefnogaeth hon yn dda ar y cyfan ac mewn rhai achosion yn dda iawn.

- Yn gyffredinol, mae cyfraddau presenoldeb dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn wael, ac ychydig iawn o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr sy'n mynychu ysgol uwchradd.

- Mae ansawdd y rhan fwyaf o'r addysgu a gaiff dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn dda, yn enwedig mewn ysgolion cynradd.

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dyrannu arian i AALlau ac ysgolion yn seiliedig ar niferoedd dysgwyr a dyraniad hanesyddol, heb bwyslais digonol ar anghenion dysgwyr.

- Nid yw'r ffigurau a ddefnyddir i ddyrannu arian i AALlau bob amser yn adlewyrchu nifer y dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr o fewn yr AALl.

- Mae gan lawer o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr lefelau isel o fedrau sylfaenol ac yn aml ychydig iawn o fedrau cymdeithasol.

- Nid oes gan lawer o ysgolion ac AALlau bolisïau ar waith i fynd i'r afael ag anghenion penodol dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr.

- Prin yw'r ysgolion sydd wedi nodi cyfleoedd yn y cwricwlwm i hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol ar ddiwylliant Sipsi Deithwyr.

- Yn gyffredinol, nid oes gan AALlau ac ysgolion ymwybyddiaeth o arfer dda a strategaethau i gefnogi dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr.

- Ychydig iawn o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr sy'n cwblhau gwaith cartref.

5 Argymhellion

10 Dylai AALlau ac ysgolion:

A1 chwilio am ffyrdd o wella presenoldeb a chynyddu niferoedd y plant sy'n Sipsi Deithwyr sy'n mynychu ysgolion uwchradd;

A2 sicrhau bod ganddynt bolisïau sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr; a

A3 sicrhau bod y cwricwlwm yn hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol ar ddiwylliant Sipsi Deithwyr.

11 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 gydweithio ag awdurdodau lleol i nodi trefniadau priodol a'u rhoi ar waith i alluogi staff sydd â chyfrifoldebau dros ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr, i drafod materion cyffredin a rhannu arfer orau; a

A2 sicrhau bod y data a gesglir yn gywir ac yn gyson ac ystyried ym mha ffyrdd y gellir dyrannu arian fel ei fod yn rhoi mwy o bwyslais ar anghenion dysgwyr.

6 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

12 Y ffactor sy'n cael yr effaith fwyaf ar y cynnydd a wna dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yw eu cyfradd presenoldeb yn yr ysgol. Lle mae cyfraddau presenoldeb yn agos at 90%, mae cynnydd dysgwyr yn gyffredinol yn cydweddu â chynnydd y gymuned sefydlog. Yn gyffredinol, mae plant Sipsi Deithwyr yn mynd i'r ysgol yn llai rheolaidd na phlant yn y gymuned sefydlog. Gan fod nifer y safleoedd ar gyfer Sipsi Deithwyr wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Sipsi Deithwyr wedi tueddu i aros ar rai safleoedd mwy a gynhelir am gyfnodau hwy. Mae hyn wedi'i gwneud yn haws i blant o'r grwpiau hyn fynd i'r arfer o fynychu'r ysgol. Mewn un awdurdod, mae cyfradd presenoldeb Sipsi Deithwyr wedi codi i dros 85%, ond mae yna ardaloedd lle mae'n llawer is. Yn gyffredinol, mae dysgwyr yn mynychu'n dda mewn ardaloedd lle mae rhieni wedi dod i ymddiried yn eu hathrawon ysgol a'u swyddogion AALl lleol. Mae rhai athrawon a swyddogion wedi gallu dangos Sipsi Deithwyr eu bod yn ddibynadwy ac mai lles y gymuned sydd ganddynt mewn golwg. Mae croeso i'r aelodau hyn o AALl ar safleoedd Sipsi Deithwyr. Mewn ardaloedd eraill, fodd bynnag, mae diffyg ymddiriedaeth rhwng y naill ochr a'r llall. Nid oes croeso i aelodau staff ysgolion a'r AALl ar y safleoedd ac maent yn gwrthod mynd yno.

13 Er bod AALlau o bryd i'w gilydd yn erlyn rhieni sy'n methu anfon eu plant i'r ysgol, anaml y maent yn gwneud hyn am ei fod yn aneffeithiol. Gallai rhieni Sipsi Deithwyr gadw eu plant eraill oddi yno a gallai teuluoedd eraill ddilyn eu hesiampl.

14 Anaml y mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn mynychu'r ysgol ar ôl Blwyddyn 6. Ychydig iawn o AALlau sy'n llwyddo i gadw dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr mewn ysgol uwchradd. O blith y dysgwyr sy'n mynychu ysgol uwchradd, dim ond o bryd i'w gilydd y mae rhai wedi mynychu ysgol gynradd, ac mae eu lefelau cyrhaeddiad yn isel iawn. Ni all y dysgwyr hyn ymdopi â'r gwaith yn y rhan fwyaf o bynciau. Yn gyffredinol, maent yn mynychu gwersi mewn grwpiau o ddau neu dri gydag athro arbenigol. Mae eu gwersi'n ymwneud yn bennaf â medrau sylfaenol llythrennedd a rhifedd a'u helpu i reoli eu hymddygiad. Pan wnânt gynnydd sylweddol yn y meysydd hyn, maent yn dechrau mynychu rhai dosbarthiadau prif ffrwd. Hyd yn oed bryd hynny, prin yw'r rhai sy'n aros tan ddiwedd cyfnod allweddol 3, ac ychydig iawn yn unig sy'n parhau i gyfnod allweddol 4 ac yn sefyll arholiadau TGAU. Yn gyffredinol, nid oes gan AALlau gofnodion sawl blwyddyn sy'n dangos, er enghraifft, canran y dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr sy'n cyflawni'r lefelau amrywiol ym mhrofion ac asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ac nid oes ganddynt ychwaith gofnodion sy'n dangos cyrhaeddiad yn ôl rhyw.

15 I'r nifer fawr o ddysgwyr sy'n dewis peidio â mynychu ysgol uwchradd, mae rhai AALlau yn llwyddo i ddod o hyd i gyrsiau ardystiedig rhan-amser addas fel bod y dysgwyr hyn yn parhau mewn addysg, hyd yn oed os nad ydynt yn yr ysgol. Trwy ddilyn y cyrsiau hyn, yn bennaf mewn iechyd a harddwch neu adeiladu, mae'r dysgwyr yn ennill medrau galwedigaethol a chymwysterau sylfaenol defnyddiol, ac maent yn ehangu eu dewisiadau gyrfa. Mewn ychydig iawn o

AALlau, mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yng nghyfnod allweddol 4 naill ai yn yr ysgol neu'n dilyn cyrsiau rhan-amser fel y rhain.

16 Mae yna, fodd bynnag, ganran sylweddol o hyd o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr sydd heb fynychu'r ysgol rhyw lawer. Yn gyffredinol, mae gan y dysgwyr hyn, beth bynnag fo'u hoedran, lefelau cyrhaeddiad isel iawn. Yn nodweddiadol, mae ganddynt eirfa gyfyngedig iawn, maent yn siarad yn aneglur, gallant ddarllen testunau syml yn unig a gallant ysgrifennu brawddegau syml yn unig. Ni all rhai ddweud yr amser. Ychydig iawn o wybodaeth neu fedrau sydd gan y dysgwyr hyn mewn pynciau fel hanes neu ddaearyddiaeth, ac ychydig iawn o'r medrau ymarferol y gallant fod wedi'u hennill trwy waith mewn addysg gorfforol, dylunio a thechnoleg, celf neu wyddoniaeth. Mae ganddynt ond y medrau mwyaf sylfaenol mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Nid yw'r dysgwyr hyn wedi'u paratoi'n dda ar gyfer bywyd yn y gymdeithas ehangach, ac nid oes ganddynt y dewisiadau o ffordd o fyw a gyrfa sy'n agored i ddysgwyr o'r gymuned sefydlog.

Arfer dda 1

Mae gan ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr lefelau isel iawn o fedrau sylfaenol ac yn aml medrau cymdeithasol cyfyngedig. Un strategaeth a gynlluniwyd i wella medrau plant, yn eu blynyddoedd cyn-ysgol a phan fyddant yn mynychu'r ysgol, yw i ddarparu bws chwarae sy'n teithio o amgylch safleoedd Sipsi Deithwyr. Mae arweinwyr chwarae yn siarad â'r plant, yn eu cyflwyno i lyfrau, a thrwy chwarae, eu haddysgu i ryngweithio ag eraill, rhannu, cydweithio a chystadlu'n deg. Mae'r plant yn dysgu medrau sy'n eu helpu i wneud cynnydd gwell yn yr ysgol ac maent hefyd yn dysgu am y math o ymddygiad y bydd ysgolion yn disgwyl ganddynt.

17 Ar y cyfan, mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn ei chael yn anodd iawn cwblhau gwaith cartref. Mae rhai ysgolion yn adrodd nad yw'r rhan fwyaf o'r llyfrau y mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn mynd adref gyda nhw yn cael eu dychwelyd i'r ysgol. Mae rhai AALlau yn darparu ar gyfer gwaith cartref mewn clybiau ar ôl yr ysgol ar safle'r ysgol neu ar safle'r Sipsi Deithiwr.

Arfer dda 2

Mae ysgolion ac AALlau yn mabwysiadu ystod o strategaethau i helpu dysgwyr i gwblhau eu gwaith cartref, fel:

- gweithleoedd dan oruchwyliaeth yn ystod amser cinio neu fel rhan o'r clwb brecwast;
- clwb gwaith cartref ar safle'r Sipsi Deithwyr; neu
- staff ar y bws sy'n gallu helpu dysgwyr gyda gwaith cartref pan fydd y bws yn ymweld â'r safle.

Mae pob un o'r strategaethau hyn yn helpu rhai dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr i ddal i fyny â'u cyfoedion a chynnal cynnydd da yn y dosbarth.

18 Mae yna rai enghreifftiau o addysgu a dysgu ar-lein. Ychydig iawn o deuluoedd sy'n Sipsi Deithwyr sydd â chyfrifiaduron addas neu fynediad i'r rhyngrwyd o'u cartrefi. Mae un AALl wedi rhoi benthyg gliniadur â mynediad lloeren i'r rhyngrwyd ac argraffydd i ddysgwr sy'n Sipsi Deithiwr er mwyn i'r dysgwr gynnal cyswllt â'r ysgol sylfaen pan na fydd hi yn yr ardal. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i arfarnu'r prosiect hwn.

19 Mae rhai AALlau wedi sefydlu canolfannau ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr. Yn y canolfannau hyn, mae'r dysgwyr yn defnyddio cyfrifiaduron yn hyderus ac yn ennill ystod dda o fedrau TGCh.

Arfer dda 3

Mewn un AALl, prynodd y Gwasanaeth Addysg i Deithwyr fan Transit mawr a gafodd ei drawsnewid ai'i addasu'n arbennig fel canolfan addysgu. Ar hyn o bryd, mae athro cymwys a chynorthwyydd addysgu yn addysgu dysgwyr oedran uwchradd ar y bws ar safle'r Sipsi Deithwyr. Mae tua 20 o ddysgwyr yn manteisio ar y ddarpariaeth hon ar wahanol adegau. Mae dysgwyr yn gweithio mewn grwpiau bach yn dilyn rhaglenni a baratowyd yn unigol. Mae'r adnoddau i gefnogi dysgu yn cynnwys gliniaduron a meddalwedd addysgol, yn ogystal ag ystod i fideos, llyfrau a rhaglenni addysg. Fel hyn, mae gan ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr fynediad i offer TGCh, gallant ddatblygu medrau TG a chael mynediad dan oruchwyliaeth i'r Rhyngrwyd. Mae'r bws hefyd yn galluogi staff a dysgwyr i gael mynediad i ddysgu oddi ar y safle trwy ymweld â mannau o ddiddordeb addysgol. Am fod llawer o'r dysgu yn digwydd ar safle'r Sipsi Deithiwr, gall aelodau o'r staff annog rhieni i gymryd diddordeb yn nysgu eu plant.

7 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?

20 Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu a gaiff dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr o ansawdd da, yn enwedig mewn ysgolion cynradd. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gwahaniaethu'r gwaith yn ofalus er mwyn mynd i'r afael ag anghenion yr ystod eang hon o ddysgwyr.

21 Pan fydd plant Sipsi Deithwyr yn dechrau'r ysgol mewn dosbarth meithrin neu dderbyn, mae athrawon yn eu hasesu fel y byddent yn asesu unrhyw blentyn arall. Maent yn cynnal yr asesiadau gwaelodlin arferol o ddysgwyr ac yn cynllunio profiadau ar eu cyfer sy'n cydweddu â'u hanghenion a'u tueddfryd. Mae'r dysgwyr yn cymryd rhan yn llawn yn y dosbarth. Pan fyddant yn gweithio mewn grwpiau, mae hyn yn gyffredinol gyda dysgwyr o allu tebyg sy'n cynnwys plant Sipsi Deithwyr a phlant cymunedau sefydlog.

22 Mewn ysgolion cynradd, mae bron pob dysgwr sy'n Sipsi Deithiwr yn dysgu mewn dosbarthiadau prif ffrwd. Os oes gan rai dysgwyr anghenion arbennig, gallai staff benderfynu eu tynnu o wersi am ryw awr bob wythnos am gymorth arbennig i'w helpu yn eu maes anhawster. Mae'r addysgu grŵp bach neu un-i-un hwn yn gyffredinol o ansawdd da. Mae'r athrawon sy'n ei ddarparu yn cynllunio'r gwaith trwy drafod â'r athro dosbarth fel ei fod yn mynd i'r afael â'r anawsterau penodol y mae pob dysgwr yn eu hwynebu. Mae'r addysgu grŵp bach hwn fel arfer yn fwy trylwyr yn ystod yr wythnosau cyntaf y mae dysgwyr yn yr ysgol.

23 Oherwydd eu ffordd o fyw, mae llawer o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn aml yn newid ysgol. Yn aml, ni all eu rhieni nodi'r ysgol olaf y gwnaethant fynychu, felly ni all eu hysgol newydd gael unrhyw gofnodion. Yn y gorffennol, roedd llawer o Sipsi Deithwyr yn berchen ar gerdyn, y gallent fynd ag ef i ysgol a byddai'r pennaeth yn cofnodi enw, cyfeiriad a manylion cyswllt yr ysgol arno. Byddent yn rhoi'r cerdyn yn ôl i'r rhieni ar unwaith a byddai'n parhau i fod yn eiddo iddyn nhw yn unig. Pan ddefnyddiwyd ef fel a fwriadwyd, roedd y cerdyn yn darparu cofnod llawn o hanes ysgol y plentyn ac roedd yn galluogi ysgol newydd i gysylltu ag ysgolion blaenorol i ofyn am gofnodion. Yn anffodus, ni ddefnyddir yr arfer hon bellach.

24 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal cofnodion da o gynnydd dysgwyr, ac maent yn barod i anfon copïau i ysgol newydd plentyn. Os na all staff ddarganfod pa ysgol a fynychodd plentyn o'r blaen, mae athrawon yn gwneud asesiad cyflym o allu'r plentyn mewn llythrennedd a rhifedd ac yn eu rhoi mewn dosbarth priodol. Pan fydd y dysgwr wedi ymgartrefu yn yr ysgol, mae'r athrawon yn cynnal profion safonol i asesu oed darllen, oed ysgrifennu a gallu gwybyddol y dysgwr.

25 Mewn AALlau lle mae yna yn gyffredinol dros 100 o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr, y swyddog AALl sydd â chyfrifoldeb am Sipsi Deithwyr yw'r person cyntaf yn aml i wybod pan fydd teulu newydd wedi cyrraedd. Gallai'r swyddog gynnal ymweliad cartref i wneud asesiad cychwynnol ac i ddelio â materion fel gwisg ysgol a threfniadau trafnidiaeth. Yna, gall y swyddog helpu ysgol i baratoi am y dysgwr newydd.

26 Mae'r rhan fwyaf o AALlau yn rhoi cymorth ychwanegol i ysgolion y mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn eu mynychu. Gallai'r cymorth hwn fod ar ffurf athro rhan-amser neu gymorth ychwanegol yn y dosbarth gan weinyddes feithrin neu gynorthwyydd cymorth dysgu. Ar y cyfan, mae'r aelodau staff ychwanegol hyn yn gweithio'n effeithiol iawn. Ychydig iawn ohonynt sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i weithio gyda dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr, ond mae rhai AALlau wedi darparu hyfforddiant mewn swydd ar ddiwylliant Sipsi Deithwyr ar gyfer athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu. Mae gan lawer o'r aelodau staff ychwanegol hyn ran bwysig, ochr yn ochr â'r athro dosbarth, wrth gynllunio'r gwaith ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr ac wrth asesu cynnydd dysgwyr. Maent yn monitro eu gwaith ac yn ymyrryd cymaint neu gyn lleied ag sydd angen. Yn aml, caiff yr oedolion ychwanegol hyn yn yr ystafell ddosbarth effaith fuddiol nodedig ar waith dysgwyr. Yn ogystal â chyfoethogi'r broses o gynllunio'r gwaith, maent yn helpu dysgwyr i ddeall y wers, yn sicrhau bod

dysgwyr yn canolbwyntio ar y dasg dan sylw ac yn helpu rheoli ymddygiad dysgwyr. Mae un AALl wedi canolbwyntio'r cymorth hwn ar ddysgwyr ym Mlynyddoedd 5 a 6. O ganlyniad, mae mwy o ddysgwyr wedi mynd ymlaen i'r ysgol uwchradd yn hytrach na gadael yr ysgol ar ôl Blwyddyn 6.

27 Lle mae asesiadau yn awgrymu ei bod yn angenrheidiol, mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr mewn ysgolion uwchradd yn cael cymorth cynorthwyydd cymorth dysgu hefyd yn ystod rhai neu bob un o'u gwersi. Mae'r cynorthwywyr cymorth dysgu hyn hefyd yn gyffredinol effeithiol wrth helpu'r dysgwyr i ddal i fyny â gwaith y dosbarth.

28 Mewn rhai ysgolion uwchradd, lle mae yna ond ychydig iawn o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr, y gallai pob un ohonynt fod wedi cael ychydig iawn o addysg gynradd, gall y dasg i athro arbenigol neu gynorthwyydd cymorth fod yn un anodd iawn. Prin yw'r medrau dysgu sydd gan ddysgwyr yn eu grwpiau bach, ac yn aml nid oes arnynt eisiau dysgu. Nid oes gan yr ysgolion yr adnoddau dysgu y mae eu hangen ar y dysgwyr hyn, ac o ganlyniad ni allant fodloni eu hanghenion.

29 Lle na all ysgolion uwchradd ymateb yn effeithiol i anghenion dysgu dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr, mae nifer fach o AALlau wedi sefydlu canolfannau dysgu mewn ysgolion cynradd ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr o oed ysgol uwchradd. Yn gyffredinol, mae hyn yn ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o addysgu dysgwyr na allant ymdopi mewn dosbarthiadau prif ffrwd mewn ysgol uwchradd.

Arfer dda 4

Mewn rhai canolfannau dysgu, mae'r AALl yn darparu athrawon a gweithwyr cymorth sydd â phrofiad o weithio gyda dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr. Gall yr aelodau staff hyn gynnig addysg sydd wedi'i haddasu'n effeithiol ar gyfer Sipsi Deithwyr. Ceir adnoddau da yn y canolfannau sydd â llyfrau, offer a chyfrifiaduron gyda meddalwedd addysgol o ansawdd da. Yn nodweddiadol, mae'r canolfannau hyn yn casglu deunyddiau sy'n adlewyrchu diwylliant y Sipsi Deithwyr, maent yn trefnu teithiau ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr ac yn ymgymryd â phrosiectau fel paentio murlun mawr, lle gall dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr ddathlu agweddau ar eu diwylliant eu hunain. Bu'r canolfannau hyn yn llwyddiannus iawn wrth gadw dysgwyr mewn addysg. Mae dysgwyr yn blasu llwyddiant ac yn ennill ardystiad a chymwysterau. Mae rhai dysgwyr wedi symud i addysg bellach lle maent wedi ennill CGCau mewn trin gwallt. Mae eraill yn astudio cyrsiau gosod brics a gweinyddu busnes.

30 Mae ysgolion yn ofalus i beidio â thybio bod gan ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr anghenion addysgol arbennig (AAA). Os yw'r cydlynydd AAA yn gysylltiedig â'r dysgwyr yn gynnar yn ystod eu bywyd ysgol, mae hyn am fod gan yr athro hwnnw arbenigedd mewn gweinyddu profion ac asesu anghenion dysgwyr. Mae nodi bod gan ddysgwr anghenion addysgol arbennig yn digwydd yn y ffordd

arferol, fel arfer gydag athro dosbarth y dysgwr yn sylwi bod y dysgwr yn cael anhawster penodol â gwaith a chyfeirio'r mater at y cydlynydd AAA. Mae ysgolion yn gwneud asesiadau AAA ac yn cymryd camau eu hunain neu, os bydd angen, gyda chymorth yr AALl neu asiantaethau eraill i fynd i'r afael ag anghenion y dysgwr. Maent yn ysgrifennu cynlluniau addysg unigol (CAU) neu gynlluniau ymddygiad unigol (CYU) pan fyddai'r rhain yn ddefnyddiol. Mae'r cynlluniau o ansawdd da yn gyffredinol, gyda thargedau penodol a chyflawnadwy, ac mae athrawon yn eu defnyddio'n dda i hyrwyddo cynnydd dysgwyr. Mae swyddogion AALl yn aml yn cymryd rhan wrth ysgrifennu a monitro'r cynlluniau hyn.

31 Wrth i Sipsi Deithwyr ddechrau aros am gyfnodau hwy ar nifer lai o safleoedd, mae'n dod yn haws i AALlau fonitro pan fyddant yn eu hardal. Mae AALlau felly'n gwybod bron ar unwaith a yw dysgwyr yn absennol am eu bod wedi aros adref neu am eu bod wedi symud o'r ardal. Mae gan sawl AALl Swyddogion Lles Addysg (SLlA) i weithio'n benodol â theuluoedd Sipsi Deithwyr, ac mae eraill wedi gwneud cais am gymorth o dan raglen Equal Cronfa Gymdeithasol Ewrop i benodi swyddogion eraill. Dros gyfnod o sawl mis, mae'r swyddogion hyn yn adeiladu perthnasoedd da â theuluoedd y Sipsi Deithwyr ac mae croeso iddynt ymweld â safleoedd y Sipsi Deithwyr. Mae gwaith y swyddogion hyn, trwy eu hymweliadau rheolaidd, yn helpu codi lefel presenoldeb y dysgwyr.

8 Pa mor dda y mae'r profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?

32 Mae gan blant sy'n Sipsi Deithwyr hawl i ddilyn pob agwedd ar y cwricwlwm. Pan fydd athrawon yn tynnu dysgwyr o ddosbarthiadau prif ffrwd ar gyfer hyfforddiant un-i-un neu hyfforddiant grŵp bach mewn llythrennedd neu rifedd, maent yn ceisio gwneud yn siŵr nad yw dysgwyr yn dioddef trwy golli gwaith gweddill y dosbarth.

Arfer dda 5

Mae rhai ysgolion cynradd yn addasu eu cwricwlwm i'w wneud yn fwy perthnasol i blant sy'n Sipsi Deithwyr, yn enwedig lle mae yna lawer ohonynt. Er enghraifft, byddai gwersi yn nodweddiadol yn cynnwys:

- astudiaeth o drelars ochr yn ochr â mathau eraill o gartrefi;
- gweithio ar baentio carafannau;
- gwaith yn seiliedig ar brif ffeiriau'r Sipsi Deithwyr, fel y ffair yn Stow; a
- phwyslais penodol ar geffylau a chŵn, fel rhan o astudiaeth ehangach o anifeiliaid.

33 Mae llawer o rieni Sipsi Deithwyr yn gofyn am i'w plant beidio â mynychu gwersi addysg rhyw, ac mae ysgolion yn bodloni'r dymuniadau hyn. Yn amlach na pheidio, nid yw rhieni'n rhoi eu caniatâd i'w plant gymryd rhan mewn ymweliadau a theithiau addysgol.

34 Mewn llawer o ysgolion, mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn teithio adref ar unwaith ar ddiwedd y diwrnod ysgol ac nid ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol. Mewn rhai ysgolion, mae rhieni'n dod i gasglu eu plant pan fydd y clwb ar ôl yr ysgol yn gorffen neu gall AALlau wneud trefniadau trafnidiaeth mwy hyblyg fel y gall dysgwyr fynychu.

35 Mae rhieni Sipsi Deithwyr yn gyffredinol fodlon i'w plant ddilyn cwricwlwm ysgol gynradd, sydd yn eu barn hwy'n rhoi sylfaen dda iddynt mewn Saesneg a mathemateg. Mewn cyferbyniad, mae llawer ohonynt yn gweld ychydig iawn o werth yn llawer o bynciau'r cwricwlwm uwchradd ac nid ydynt yn annog eu plant i fynychu ysgol uwchradd.

36 Mae gan rieni bryderon ynghylch ysgol uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- ofn y bydd eu plant yn cael eu bwlio neu eu cam-drin ar sail eu hil a'u diwylliant;
- ofn y gwneir hwyl am ben eu plant oherwydd eu medrau llythrennedd gwael neu eu diffyg gwybodaeth am rai pynciau;
- pryder y bydd yr agweddau tuag at ryw a chyffuriau y maent yn credu eu bod yn gyffredin ymhlith teuluoedd o'r gymuned sefydlog yn cael effaith niweidiol ar eu plant;
- teimlad bod cymaint o athrawon na fydd eu plant yn gallu adeiladu perthynas ag unrhyw un ohonynt; a
- chred nad yw ysgolion uwchradd yn gwneud unrhyw beth i baratoi eu plant ar gyfer eu rolau traddodiadol o fod yn wraig tŷ neu'n ŵr ac yn weithiwr yng nghymuned y Sipsi Deithwyr.

37 Hoffai AALlau pe bai llawer mwy o blant Sipsi Deithwyr yn mynychu ysgolion uwchradd.

Arfer dda 6

Mewn un ganolfan ddysgu ar gyfer dysgwyr uwchradd, mae'r cwricwlwm cyfan yn seiliedig ar anghenion dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr. Mae dysgwyr nad ydynt wedi cael unrhyw addysg flaenorol yn dechrau gyda lefelau sylfaenol o lythrennedd a rhifedd ac felly'r amcan cyntaf yw gwella medrau darllen. Mae'r ganolfan yn darparu cwricwlwm mor llawn â phosibl sy'n addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedran a gallu, ac mae'n ystyried profiadau dysgu blaenorol y dysgwyr. Hefyd, mae dysgwyr yn cymryd rhan mewn cynllun peilot o'r enw "Y Wobr Driphlyg" sy'n anelu at addysgu medrau sylfaenol mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh. Mae'r dull addysgu trwy ffurf modiwlar. Mae'r modiwlau yn cynnwys:

- Gyrru
- Dinasyddiaeth
- Hylendid Bwyd
- Cymru, Ewrop a'r Byd
- Hamdden
- Iechyd a Diogelwch
- Beth yw eich barn chi?
- Chwaraeon

Caiff dysgwyr sy'n mynychu'r ganolfan hon ganlyniadau ardderchog yn eu cyrhaeddiad academaidd a chymdeithasol, ac maent yn siarad yn gadarnhaol am eu dyheadau ar gyfer y dyfodol.

38 Mewn cyferbyniad â'r arfer dda hon, ychydig iawn a wna'r rhan fwyaf o ysgolion uwchradd i annog dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr i aros yn yr ysgol. Mae gan lawer o athrawon prif ffrwd ddisgwyliadau isel o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr, gan gredu na fyddant yn astudio unrhyw beth nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r dyfodol y maent yn ei weld ar eu cyfer eu hunain. Gan fod yna fel arfer ond niferoedd bach iawn o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr mewn ysgolion uwchradd, ychydig iawn a wna adrannau yn gyffredinol i addasu eu cwricwlwm ar eu cyfer mewn unrhyw ffordd. Ychydig iawn o'r ysgolion y gwnaethom ymweld â hwy sydd wedi nodi cyfleoedd yn y cwricwlwm i hyrwyddo'r agweddau cadarnhaol ar ddiwylliant Sipsi Deithwyr.

39 Gall AALlau sy'n rhan o Brifysgol y Plant[*] baratoi gweithgareddau y tu allan i'r ysgol ar gyfer dysgwyr ac ardystio cyflawniadau dysgwyr yn well. Bu sawl AALl yn llwyddiannus wrth ddod o hyd i weithgareddau lle mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn awyddus i gymryd rhan. Mae grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr wedi treulio penwythnosau i ffwrdd gyda gweithwyr ieuenctid, yn gweithio o dan y cynllun Mynediad Ieuenctid.

[*] *Mae Prifysgol y Plant yn hyrwyddo gweithgareddau sy'n datblygu'r plentyn cyfan ac yn rhoi credydau am gyfranogiad mewn dysgu yn hytrach na modelau addysgol traddodiadol o wobrwyo cyflawniad yn erbyn safonau a bennwyd ymlaen llaw.*

Arfer dda 7

Mewn un AALl, mae gan y gwasanaeth addysg i Deithwyr lyfrau darllen Cymraeg a Saesneg, ac arddangosiadau sy'n adlewyrchu diwylliant Sipsi Deithwyr. Mae llwyddiant y llyfrau darllen cynnar a gynhyrchwyd gan y gwasanaeth addysg i Deithwyr wedi'i wella gan stori wedi'i hysgrifennu a'i hadrodd gan ddau fyfyriwr sy'n Sipsi Deithwyr a'r darluniau gan arlunydd sy'n Sipsi Deithiwr. Mae'r AALl yn rhoi benthyg y llyfrau hyn i ysgolion cynradd y mae Sipsi Deithwyr yn eu mynychu. Mae gan y gwasanaeth addysg i Deithwyr amrywiaeth eang o ddeunydd y maent yn ei ddefnyddio i godi ymwybyddiaeth am ddiwylliant Sipsi Deithwyr – arteffactau, ffotograffau, llyfrau ac adnoddau clyweled. Defnyddir y rhain yn effeithiol mewn arddangosfa o'r enw "Dathlu Llwyddiant".

Mewn AALl arall, yn dilyn menter prosiect, prynodd Gwasanaeth Amgueddfeydd y Cyngor wagen Romani draddodiadol â thop crwn, sydd wedi dod yn rhan o arddangosfa Sipsiwn deithiol. Mae'r arddangosfa yn teithio o amgylch ysgolion a safleoedd Sipsiwn yn y Sir. Yn ychwanegol, galluogodd yr arian a ddarparwyd gan yr Amgueddfa ar gyfer prosiectau arloesol a chynhwysiad cymdeithasol i ddysgwyr gymryd rhan mewn "Trip Wagen". Profodd y dysgwyr fywyd mewn wagen a dynnir gan geffyl, gan gynnwys coginio, cysgu, teithio ac adloniant o amgylch y tân gwersyll.

9 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?

40 Mae AALlau yn cydymffurfio â Deddf Addysg 1996 sy'n gofyn iddynt drefnu bod addysg ar gael ar gyfer pob plentyn o oed ysgol yn eu hardal, sy'n briodol i'w hoedran, eu galluoedd a'u tueddfryd. Maent yn ymateb yn briodol i ofynion Deddf Cysylltiadau Hiliol 1996 hefyd. Yn gyffredinol, mae ganddynt ymagwedd gynhwysol at addysg, sy'n cynnwys Sipsi Deithwyr. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o AALlau strategaeth glir i gwrdd ag anghenion penodol dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr.

41 Mae llawer o AALlau yn rhoi cymorth i Sipsi Deithwyr trwy Wasanaeth Addysg i Deithwyr. Mae ansawdd y cymorth hwn yn dda ar y cyfan ac mewn rhai achosion mae'n dda iawn. Yn yr arfer orau, mae AALlau yn ceisio gwella, ac arfarnu'n barhaus bob blwyddyn, y cynnydd a wnânt wrth weithredu argymhellion adroddiad Pwyllgor Cyfle Cyfartal Llywodraeth Cynulliad Cymru – "Adolygiad o'r Gwasanaethau a Ddarperir i Sipsiwn a Theithwyr". Mae'r AALlau hyn yn adolygu cynnydd yn erbyn y saith cwestiwn allweddol yn Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn hefyd. Fodd bynnag, nid oes gan rai AALlau strategaeth sy'n nodi sut y maent am gwrdd ag anghenion y dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr a sut y maent am wella'u presenoldeb yn yr ysgol a chodi eu lefel cyrhaeddiad.

Arfer dda 8

Mae gan un AALl strategaeth lle mae aelodau o'r staff mewn ysgolion uwchradd a chynradd yn cefnogi dysgwyr wrth iddynt wneud eu gwaith cartref. Ar ddwy noson yr wythnos, mae yna glwb gwaith cartref ar safle'r Sipsi Deithwyr. Mae'r ddarpariaeth hon yn ganolog i godi cyflawniad y dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr ac fe'i hariennir yn rhannol gan raglen Equal Cronfa Gymdeithasol Ewrop. Nod yr AALl yw ehangu ei ddarpariaeth a sicrhau darpariaeth feithrin ar y safle i rieni sy'n dod i helpu plant â gwaith cartref. Bydd hyn yn darparu cyflogaeth ar gyfer aelodau o gymuned y Sipsi Deithwyr. Mae hwn yn brosiect arloesol a fydd yn cynnwys aelodau o gymuned y Sipsi Deithwyr yn weithredol ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant.

42 Mae salwch tymor hir yn cael effaith niweidiol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mewn dau o'r AALlau yr ymwelwyd â hwy, roedd cydlynwyr yn absennol yn y tymor hir oherwydd salwch. Mewn un AALl, roedd y gwasanaeth yn gallu symud swyddog oedd â chymwysterau da i'r swydd dros dro, i gynnal ansawdd ei wasanaeth. Nid oes gan y mwyafrif o AALlau swyddogion sydd ag arbenigedd yn y maes hwn, a byddent yn ei chael yn anodd neu'n amhosibl cael cydlynydd yn lle'r cydlynydd sy'n absennol am gyfnod hir. Mae hyn yn un o'r problemau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau bach mewn AALlau a gellid ei datrys drwy gael mwy o gydweithredu rhwng AALlau er mwyn cyflawni darbodion maint gwell.

43 Nid oes gan y rhan fwyaf o ysgolion gydlynydd penodol ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr a'r Cydlynydd AAA yw'r person cyswllt rhwng yr ysgol a'r AALl fel arfer.

44 Dengys y data a gasglwyd gan un AALl yn ystod y blynyddoedd diwethaf bod tua 35% o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr wedi bod ar y gofrestr AAA, a bod gan ryw 3% o ddisgyblion ddatganiad o AAA. O ddarganfod bod gorgynrychiolaeth o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr o ran y ffaith bod ganddynt anawsterau dysgu cymedrol, mae'r AALl hwn wedi llunio canllawiau i gefnogi arfer dda ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr sydd ag AAA.

45 Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn tueddu i weld mai'r AALl sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth arweinyddiaeth a rheolaeth ar gyfer dysgwyr. Maent yn disgwyl i'r AALl ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi sy'n gysylltiedig â'r dysgwyr hyn. Yn yr arfer orau, mae ysgolion yn cydnabod y dylen nhw eu hunain gwrdd ag anghenion dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr cyhyd â'i bod yn bosibl. Fodd bynnag, nid oes gan lawer o ysgolion bolisïau sy'n mynd i'r afael ag anghenion penodol dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr.

46 Yn gyffredinol, barn ysgolion yw bod "dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn cael eu trin yr un fath â phob dysgwr". Mae hon yn ymagwedd amhriodol at gyfleoedd cyfartal am ei bod yn methu ystyried anghenion penodol y dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr.

47 Yn yr arfer orau, mae gweithdrefnau ysgol yn cydweddu â "Dysgu i bawb – Safonau ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol mewn Ysgolion" ac mae yna systemau olrhain dysgwyr i sicrhau y gellir monitro cynnydd. Yn ychwanegol, mae Penaethiaid Adrannau mewn ysgolion uwchradd yn ymwybodol o anghenion penodol Sipsi Deithwyr ac maent yn darparu ar eu cyfer yn eu cynlluniau gwaith eu hunain.

48 Mae bron pob ysgol yn anfon data i'r AALl ynghylch cyflawniad a chynnydd pob dysgwr, gan gynnwys dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion ac AALlau yn monitro pa mor dda y mae dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn cyflawni na ph'un a yw eu perfformiad wedi gwella neu wedi dirywio dros y blynyddoedd. Heb y wybodaeth hon, ni all ysgolion nac AALlau wybod maint y dasg sy'n eu hwynebu na monitro effeithiolrwydd eu gwaith.

49 Mae nifer fach o ysgolion yn monitro cynnydd dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod cyflawniad academaidd, presenoldeb, hyder a medrau cymdeithasol dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr.

50 Ni all y rhan fwyaf o AALlau ddarparu manylion am y cost-effeithiolrwydd na'r gwerth am arian a ddarperir gan staff cymorth Sipsi Deithwyr. Yn yr arfer orau, mae'r Gwasanaeth Addysg i Deithwyr yn monitro effeithiolrwydd swyddogion, athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu ac yn darparu hyfforddiant ar eu cyfer.

Arfer dda 9

Mewn un AALl, mae'r cydlynydd Sipsi Deithwyr yn arwain cyrsiau hyfforddiant yn ystod y dydd a gyda'r nos ar gyfer athrawon a chynorthwywyr cymorth dysgu. Mae hi'n hyfforddi swyddogion ac athrawon mewn AALlau cyfagos hefyd. Mae hi'n aelod o Gymdeithas Genedlaethol y Sipsi Deithwyr ac mae'n gwneud cyflwyniadau i grwpiau ledled Cymru. Yn yr AALl hwn, caiff cynorthwywyr cymorth dysgu eu hyfforddi gan ddefnyddio arbenigedd staff presennol. Mae staff o'r Ganolfan Ddysgu yn gweithio ochr yn ochr â chynorthwywyr cymorth dysgu mewn ysgolion, a recriwtiwyd rhai ohonynt o gymuned y Teithwyr. Mae'r cynorthwywyr cymorth dysgu hyn yn gweithredu fel modelau rôl da ar gyfer eu cymuned a'r dysgwyr yn yr ysgol.

51 Mae ansawdd cyffredinol y cymorth a ddarperir gan wasanaeth Addysg i Deithwyr AALlau yn dda. Lle mae'r cymorth yn dda iawn, mae'n cyfrannu'n sylweddol at wella mynediad i addysg a gwella cyflawniad dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr. Mae rhai AALlau yn gweithio'n galed i adeiladu perthnasoedd â'r gymuned deithiol, ac mae eu gwaith wedi annog Sipsi Deithwyr i gymryd mwy o ran yn ysgolion eu plant.

52 Yn yr arfer orau, mae gan AALlau aelodau o staff hyfforddedig o gymuned y Sipsi Deithwyr i weithio gyda phlant Sipsi Deithwyr mewn ysgolion a meithrinfeydd. Maent yn gweithio'n effeithiol, yn gweithredu fel modelau rôl

cadarnhaol ar gyfer gweddill y gymuned ac ar gyfer dysgwyr yn yr ysgol, ac maent yn darparu cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r gymuned.

53 Nid oes angen yr un lefel o gymorth ar bob dysgwr sy'n Sipsi Deithiwr. Mae angen mwy o gymorth ar rai nag eraill, gan ddibynnu'n benodol ar lefel eu medrau llythrennedd a rhifedd. Er enghraifft, yn gyffredinol, byddai angen llai o gymorth ar ddysgwr sy'n Sipsi Deithiwr ym Mlwyddyn 6 sydd wedi cael lefelau presenoldeb da trwy gydol yr ysgol gynradd nac ar ddysgwr y mae ei bresenoldeb wedi bod yn wael. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dyrannu arian i AALlau ac ysgolion yn seiliedig ar niferoedd dysgwyr a dyraniad hanesyddol, heb bwyslais digonol ar anghenion y dysgwyr. Er hynny, mae hyn yn golygu bod AALlau sydd â niferoedd tebyg o ddysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr yn cael lefelau gwahanol iawn o arian.

54 Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn deall y sail ar gyfer dyrannu adnoddau i'w hysgol. Mae AALlau yn seilio'u cymorth ar niferoedd dysgwyr ac ar niferoedd y dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn bob amser yn gywir ac mae hyn yn arwain at anghydraddoldeb o ran dyrannu adnoddau.